# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mercher 3 Mai 2006]

**Dydd Mawrth 9 Mai a dydd Mercher 10 Mai 2006**

**Dydd Mawrth 16 Mai a dydd Mercher 17 Mai 2006**

**Dydd Mawrth 23 Mai a dydd Mercher 24 Mai 2006**

**<u>Dydd Mawrth 9 Mai 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd,Cynllunio a Chefn Gwlad : The Transmissible Spongiform Encephalopathies (TSE) (Wales) Regulations 2006 made under Standing Order 24.27 (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (20 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno darpariaethau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru (h.y. cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol) gynnwys darpariaethau penodol yn eu rheolau sefydlog sy'n ymwneud â'u staff, eu cyfarfodydd a'u trafodion. Byddai'r rhain yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n diogelu Swyddogion Monitro a Phrif Swyddogion Cyllid i ryw raddau rhag cael eu diswyddo. Dim ond Penaethiaid y Gwasanaeth Cyflogedig sy'n cael eu diogelu i'r graddau hyn ar hyn o bryd. Ar ôl i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gael ei gweithredu, cafodd rôl Swyddogion Monitro a Phrif Swyddogion Cyllid ei hehangu er mwyn cynnwys dyletswydd i gynnig cyngor ynghylch a oedd penderfyniadau penodol yn groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â hi.  Byddai diogelu'r swyddogion hyn i'r un graddau â Phenaethiaid y Gwasanaeth Cyflogedig yn eu diogelu rhag unrhyw ymgais i'w diswyddo ar sail wleidyddol, am eu bod wedi herio penderfyniadau'r Cyngor.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 25 adran 3 (20 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud ar y cyd, yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2005 (fel y'i diwygiwyd). Y rheoliadau hyn a fydd yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 91/414/EEC, sy'n ymwneud â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad yng Nghymru a Lloegr.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Diogelu Dwr Rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 25 adran 3 (20 munud)**

Effaith y Rheoliadau hyn yw trosi Cyfarwyddeb 2003/35/EC, sef Cyfarwyddeb Cyfranogiad y Cyhoedd, yn rhaglenni gweithredu ar gyfer parthau perygl nitradau.

- **Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog 23 (5 munud)**

- **Dadl a enwebwyd gan Blaid Cymru - gohiriwyd o 2 Mai 2006 (45 munud)**

**<u>Dydd Mercher 10 Mai 2006</u>**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Procedural motion to extend the duration of the Railway Infrastructure Committee (1 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 2006 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn dirymu ac yn ailwneud Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 2003, a oedd yn darparu yng Nghymru ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad Rhif 1774/2002 EC a wnaed gan Senedd Ewrop a Chyngor Ewrop ac sy'n pennu rheolau iechyd yn ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid nas bwriedir i bobl eu bwyta, (Cyfnodolyn Swyddogol Rhif L273).

- **Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (20 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi amodau ychwanegol (yn ychwanegol i'r rheini yn adran 20 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003) y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff awdurdod addysg lleol (AALl) wneud cais i lys ynadon am Orchymyn Rhianta, o dan adran 20 (1) (b) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yng Nghymru. Maent yn cynnig ffordd arall i'r AALlau weithio gyda'r rhieni i wella ymddygiad disgyblion. Maent yn pennu:

  - bod yn rhaid i ddisgybl fod wedi'i wahardd naill ai am gyfnod penodol ar fwy nag un achlysur o fewn cyfnod o 12 mis neu ei fod wedi'i wahardd yn barhaol;

  - bod yn rhaid i gais gael ei wneud cyn pen 6 mis i'r tro diwethaf y cafodd y disgybl ei wahardd; a

  - bod y costau sy'n gysylltiedig â gofynion gorchymyn rhianta yn cael eu talu gan yr AALl.

  - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006

- **Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag adrannau 19 i 22 a 24 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i rym ar 5 Mai 2006. Mae'r adrannau hyn yn ymwneud â Chontractau Rhianta a Gorchmynion Rhianta ar gyfer rhieni disgyblion ysgol. Dyma'r adrannau a fydd yn dod i rym:

- Mae adran 19 yn gwneud darpariaeth er mwyn i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol (AALlau) wneud contractau rhianta gyda rhiant plentyn sydd wedi'i wahardd dros dro neu'n barhaol neu sy'n absennol yn aml;

- Mae adran 20 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle y caiff AALl wneud cais i lys ynadon am orchymyn rhianta, ar gyfer yr amgylchiadau lle y caiff y llys wneud gorchymyn, a chynnwys ac effaith gorchymyn;

- Wrth benderfynu a ddylent gyhoeddi Gorchymyn Rhianta ai peidio, mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd ynadon ystyried amgylchiadau teuluol disgyblion sydd o dan 16 mlwydd oed ac effaith debygol y gorchymyn ar yr amgylchiadau hynny. Mae'n rhaid i'r llysoedd hefyd ystyried i ba raddau y mae'r rhiant yn barod i gytuno ag unrhyw Gontract Rhianta neu i gydymffurfio ag ef.

- Mae adran 22 yn darparu ar gyfer hawl i apelio i Lys y Goron yn erbyn gorchymyn rhianta; ac

- Mae adran 24 yn ddarpariaeth ddehongli sy'n esbonio sut y mae'r termau'n cael eu diffinio.

.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru 2006 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn darpariaethau penodol yn Rhan II o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i rym yng Nghymru ar 3 Mai 2006. Mae hefyd yn rhoi trefniadau trosiannol ar waith mewn perthynas â'r gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadu wrth brosesu gorchmynion perthnasol (a ddiffinnir yn Neddf 2000) a wnaed neu y cyflwynwyd cais amdanynt cyn i adran 47 o Ddeddf 2000 gychwyn. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gweithredu rhai diwygiadau

canlyniadol a chysylltiedig i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Priffyrdd 1980 a deddfwriaeth sylfaenol arall.

- **Dadl am Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd ym mywyd cymunedau (60 munud)**

- **Cynnig i drafod y 3 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (45 munud)**

    - **Dadl am Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

    - **Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog 4**

    - **Cynnig i ddiwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 16 Mai 2006

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

  - **Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC (fel y'i diwygiwyd gan 2004/426/EC), sy'n sefydlu camau brys i atal *Phytophthora ramorum (*pathogen tebyg i ffwng ar blanhigion, sy'n gallu niweidio coed a phlanhigion), rhag dod i mewn i'r Gymuned a lledu ynddi cyn belled ag y bo'n berthnasol i ddeunyddiau a allai gael eu heintio â *Phytophthora ramorum.* Mae hefyd yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2004/278/EC, sy'n cyflwyno rheolau ar basbortau planhigion ar gyfer deunyddiau planhigion sy'n cael eu masnachu rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'r Swistir.

Roedd angen cymryd camau brys ar ôl i nifer fawr o achosion o *Phytophthora ramorum* gael eu gweld yn Unol Daleithiau America, ac ar ôl i achosion gael eu gweld wedyn yn yr Almaen ac yn yr Iseldiroedd ganol nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Er mai yn Unol Daleithiau America y mae'r pathogen wedi achosi'r niwed mwyaf, mae wedi lledu yn Ewrop i Wlad Belg, y Ffindir, Denmarc, Ffrainc, Iwerddon, yr Eidal, Norwy, Gwlad Pwyl, Sbaen, y Swistir, Sweden a'r DU.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Labelu Pysgod (Diwygio) (Cymru) 2006 (20 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r rhestr genedlaethol bresennol o ddynodiadau masnachol ar gyfer rhywogaethau pysgod (h.y. yr enwau cyffredin dynodedig megis 'penfras; 'eog', etc.) drwy ddisodli'r Atodlen i Reoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003. Mae'r Atodlen newydd yn ychwanegu nifer o fathau newydd o rywogaethau pysgod i ganiatáu ar gyfer rhywogaethau masnachol newydd ar y farchnad ac mae'n newid rhai o'r dynodiadau sy'n bodoli eisoes yng ngoleuni gwybodaeth wyddonol newydd. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn egluro mai'r dynodiadau masnachol yn yr iaith Saesneg, sy'n cael eu derbyn yn Aelod-wladwriaethau eraill yr UE, yw'r enwau a ragnodir o dan y gyfraith.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006 (20 munud)**

Diben y Gorchymyn hwn yw cychwyn darpariaethau Penodau 3 i 5 o Ran 1; Penodau 6 a 7 o Ran 1 nad ydynt eisoes mewn grym; adrannau 71, 105, 106, 115, 116, 117 (mewn perthynas â pharagraffau 1, 6 a 15 o Atodlen 18), 118, 123 (mewn perthynas ag Atodlen 19), Atodlen 2, Atodlen 3, Atodlen 4, Atodlen 5, Atodlen 6, Atodlen 8, Atodlen 18 (Rhan 4), Atodlen 19 (Rhan 1, y diddymiadau yn Neddf Plant 1989, Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000) o Ddeddf Addysg 2005.

Mae'r Gorchymyn yn dod â nifer o ddarpariaethau i rym sy'n ymwneud ag arolygwyr ysgolion ac arolygiadau ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys: y weithdrefn ar gyfer arolygiadau, ysgolion sy'n peri pryder, arolygu awdurdodau addysg lleol, gwarchod plant a gofal dydd, ysgolion annibynnol a Gyrfa Cymru; cynigion statudol yn ymwneud ag ysgolion arbennig a gynhelir; darparu ac ariannu addysg uwch mewn ysgolion a gynhelir; trefniadau derbyn er mwyn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; a bod yn bresennol i dderbyn darpariaeth addysgol arall.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006 (20 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso gofynion y Rhaglenni Astudio ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 (disgyblion sydd oddeutu 14-16 mlwydd oed) rhwng mis Medi 2006 a mis Awst 2008 ar gyfer disgyblion sy'n astudio cwrs sy'n arwain at gymhwyster cymeradwy mewn gwyddoniaeth

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (20 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 17 Mai 2006**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**

- **Motion to approve an in year MEG to MEG transfer (15 munud)**

- **Dadl am y Diwydiant Gweithgynhyrchu (60 munud)**

- **Dadl am ESTYN - Adroddiad Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 23 Mai 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006 (20 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 er mwyn cynyddu symiau'r terfynau cyfalaf sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r hawl i dreuliau teithio a pheidio â chodi tâl o dan y Rheoliadau hynny.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Iawndal Gwartheg (Cymru) 2006 (20 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Iawndal Brwselosis a Thwbercwlosis (Cymru a Lloegr) 1978 a'r Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Iawndal) 1980. Mae hefyd yn cyflwyno system iawndal fwy syml ar gyfer gwartheg sy'n cael eu lladd am eu bod yn dioddef o'r clefydau a ganlyn: TB mewn gwartheg, Brwselosis (clefyd sy'n cael ei achosi gan y bacteriwm *Brucella abortus*, sy'n gallu achosi clefyd o'r enw 'y dwymyn donnol' mewn pobl) a Lewcosis Buchol Ensootig (clefyd trosglwyddadwy sy'n cael ei achosi gan y lewcofeirws buchol, ac sy'n gallu cael ei drosglwyddo o'r fam i'r llo a rhwng y naill fuwch a'r llall, gan achosi lewcemia a nifer o diwmorau). (Bwriedir cyflwyno deddfwriaeth ar wahân er mwyn cyflwyno'r system newydd ar gyfer BSE, a bydd y ddeddfwriaeth honno yn dod i rym ar 14 Mehefin 2006). O dan y system hon, bydd tablau prisio yn cael eu defnyddio er mwyn penderfynu ar faint yr iawndal i'w dalu, a bydd y tablau hyn yn seiliedig ar y pris cyfartalog ar y farchnad ar gyfer categorïau o wartheg y penderfynir arnynt ymlaen llaw. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer defnyddio prisiadau unigol, yn ôl disgresiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, os nad yw'r data ategol ar arwerthiannau yn ddigonol neu os nad yw ar gael ar gyfer categori penodol yn ystod unrhyw fis neu fisoedd penodol.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (60 munud)**

- **Dadl am Ran 2 o Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Anghenion Addysgol Arbennig (60 munud)**

**Dydd Mercher 24 Mai 2006**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2000 (Cychwyn) 2006 (20 munud)**

Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth ac mae'n ei gwneud yn ofynnol iddo baratoi a chyhoeddi Strategaeth Trafnidiaeth i Gymru. Mae hefyd yn addasu'r system cynllunio trafnidiaeth leol ac yn galluogi'r Cynulliad i gyfarwyddo'r awdurdodau lleol mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau trafnidiaeth ac i sefydlu drwy Orchymyn, os oes angen, un neu fwy o Gyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Mae'r Cynulliad yn cael pwerau penodol i roi cymorth ariannol ar gyfer trafnidiaeth awyr ac i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu darparu. Yn olaf, mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i'r Cynulliad sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus i Gymru.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (40 munud)**

- **Dadl am drefniadau'r Cynulliad i gydweithredu â busnesau o dan Reol Sefydlog 6.6 (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**